**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

# Craffu ar ddatblygiadau mewn pethynas â darpariaeth gwasanaethau eirioli ar gyfer plant a phobl Ifanc yng Nghymru

Mai 2009

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gellir cael rhagor o gopïau o'r adroddiad hwn, neu gopïau mewn fformat arall gan:

Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
Gwasanaeth y Pwyllgorau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8149
e-bost: Linda.heard@wales.gsi.gov.uk

Mae fersiwn electronig o'r adroddiad hwn ar gael ar wefan y Pwyllgor:
www.cynulliadcymru.org

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**
Tom Jackson – Clerc y Pwyllgor
Rita Phillips – Dirprwy Glerc y Pwyllgor
Linda Heard – Swyddog Cymorth y Pwyllgor

**Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau**
Kathryn Potter – Arbenigwr y Pwyllgor
Rebekah James – Arbenigwr y Pwyllgor

**Gwasanaethau Cyfreithiol**
Helen Roberts – Cyngorydd Cyfreithiol

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

# Craffu ar ddatblygiadau mewn pethynas â darpariaeth gwasanaethau eirioli ar gyfer plant a phobl Ifanc yng Nghymru

Mai 2009

**Craffu ar ddatblygiadau mewn pethynas â darpariaeth gwasanaethau eirioli ar gyfer plant a phobl Ifanc yng Nghymru**

## Cefndir

1. Lansiwyd adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 'Gwasanaethau Eirioli ar gyfer Plant a Phobl Ifanc', ym mis Mawrth 2008. Lluniwyd ein hadroddiad ar sail y dystiolaeth a gawsom gan amrywiaeth eang o dystion, gan gynnwys pobl ifanc oedd â phrofiad o ddefnyddio gwasanaethau eirioli. Roedd 12 argymhelliad i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn yr adroddiad.

2. Yn ei hymateb ysgrifenedig i'n hadroddiad, nododd llywodraeth Cymru ei bod yn cytuno â naw o'n hargymhellion ac yn 'cytuno'n rhannol' neu'n 'cytuno mewn egwyddor' â'r tri oedd yn weddill.[1]

3. Cyflëwyd ein siom mai dim ond cytuno'n rhannol ag argymhelliad cyntaf yr adroddiad - ar sefydlu uned eiriolaeth genedlaethol wedi ei hariannu'n ganolog gyda chyfrifoldeb dros gomisiynu gwasanaethau eirioli annibynnol mewn ardaloedd lleol - a wnaeth llywodraeth Cymru. O ran yr argymhelliad hwn, nododd llywodraeth Cymru:

> "Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi'r argymhelliad y dylai'r Uned gomisiynu gwasanaethau lleol/rhanbarthol. Darperir y rhain gan awdurdodau lleol a'u partneriaid ar hyn o bryd wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau statudol (Deddf Plant 1989 a Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006) o safbwynt darparu gwasanaethau eirioli ar gyfer sylwadau neu gwynion. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn mynd i'r afael ag ailgyflunio gwasanaethau lleol fel y caiff gwasanaethau eirioli arbenigol ac integredig eu cynllunio a'u comisiynu yn y dyfodol gan Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc yr awdurdodau lleol."[2]

4. Ar 31 Mawrth 2009, craffodd y Pwyllgor ar sut y gweithredodd y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau argymhellion ein hadroddiad, 'Gwasanaethau Eirioli ar gyfer Plant a Phobl Ifanc'.

[1] Ymateb ysgrifenedig Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar wasanaethau eirioli ar gyfer plant a phobl ifanc,
http://www.cynulliadcymru.org/ymateb_ysgrifenedig_llywodraeth_cynulliad_cymru_i_adroddiad_ar_wasanaethau_eirioli_ar_gyfer_plant_a_phobl_ifanc_w.pdf

[2] Ibid, tudalennau 2-3

**Materion a godwyd gyda'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**

5. Croesawodd y Gweinidog Elin Gwynedd i'r Pwyllgor, fel pennaeth newydd yr Uned Datblygu Eiriolaeth a Pherfformiad.

6. Wrth graffu ar waith y Gweinidog, gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad a gwybodaeth bellach ynghylch y materion a ganlyn:

a) Pa brosesau monitro a fyddai'n cael eu defnyddio i benderfynu a fyddai plant sy'n derbyn gofal a phlant eraill sy'n agored i niwed yn ystyried bod y fframwaith gwasanaeth newydd ar gyfer gwasanaethau eirioli, a sefydlir gan Lywodraeth Cymru, yn annibynnol.
b) Pa feini prawf gwerthuso sydd wedi eu cynnwys yn y fframwaith gwasanaeth newydd i adolygu ei effeithiolrwydd.
c) Faint o arian a neilltuwyd i weithredu'r fframwaith gwasanaeth newydd ac o ba linell gwariant yn y gyllideb y daw.
ch) A oes gan yr Uned Datblygu Eiriolaeth a Pherfformiad ddigon o staff a staff ar lefel ddigon uchel i gyflawni ei chyfrifoldebau'n effeithiol.
d) Sut y byddai annibyniaeth yr Uned Datblygu Eiriolaeth a Pherfformiad yn cael ei warantu.
dd) A fyddai'r rhai sy'n comisiynu'r cyflenwyr gwasanaeth presennol yn gymwys i gael eu penodi i'r Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol.
e) A fyddai'r Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol yn adrodd yn ôl yn annibynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
f) Pa gefnogaeth a fyddai'n cael ei roi i blant a phobl ifanc ar y Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol, ac a fyddent yn cael y cyfle i drafod materion, mewn grŵp bach, cyn cyfarfodydd llawn y Bwrdd.
ff) A fyddai'r Gwasanaeth Eirioli a Chynghori Cenedlaethol ar gael yn 2009/10.
g) A fyddai'n bosibl anfon neges destun neu alw'r Gwasanaeth Eirioli a Chynghori Cenedlaethol gan ddefnyddio ffôn symudol.
ng) Sut y byddai llywodraeth Cymru'n helpu plant a phobl ifanc i ddeall sut a lle i gael gafael ar wasanaethau eirioli.
h) A fyddai'n arferol i blant a phobl ifanc gael dewis o ran pwy fydd eu heiriolwr.
i) Maint a ffynhonnell y llinell wariant yn y gyllideb ar gyfer y grant untro a addawodd llywodraeth Cymru yn flaenorol ar gyfer sefydlu consortia o Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc i ddatblygu a chomisiynu gwasanaethau eirioli integredig ar y cyd.
l) Pa asesiad a wnaed o sgiliau a gallu'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc i gomisiynu gwasanaethau eirioli'n effeithiol.
ll) A fyddai'r broses o gomisiynu yn lleol neu'n rhanbarthol yn digwydd bob tair blynedd o leiaf i gynyddu sefydlogrwydd a pharhad y gwasanaethau eirioli.

**Trefniadau adrodd yn ôl y Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol**

7. Yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor, pwysleisiodd y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau rôl y Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol o ran monitro annibyniaeth y gwasanaethau eirioli a'r Uned Datblygu Eiriolaeth a Pherfformiad. Dywedodd y Gweinidog bod y plant a'r bobl ifanc sydd ar y Bwrdd a'r grŵp cynghori ehangach yn hanfodol i annibyniaeth y Bwrdd a'r gwaith monitro.[3]

8. Gofynnwyd a fyddai'r Bwrdd yn adrodd yn ôl i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Nododd y Gweinidog y byddai'n dda i'r Bwrdd allu adrodd yn ôl i'r Cynulliad drwy'r Gweinidog,[4] a'i bod eisiau ystyried yr awgrym hwn yn ofalus iawn.

9. Croesawn ddiddordeb y Gweinidog mewn galluogi'r Bwrdd i adrodd yn ôl i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a chyflwyno'r Bwrdd yn anffurfiol i Aelodau'r Pwyllgor.

10. Fodd bynnag, o gofio bod y Gweinidog wedi pwysleisio rôl y Bwrdd o ran ei dwyn hi ac Uned Datblygu Eiriolaeth a Pherfformiad llywodraeth Cymru i gyfrif, yn ogystal â monitro gwasanaethau eirioli'n ehangach, rydym yn pryderu na ddylid cyfyngu'r Bwrdd i adrodd yn ôl i Gynulliad Cenedlaethol Cymru "drwy'r Gweinidog". Rydym yn pryderu, os yw'r Bwrdd yn adrodd yn ôl "drwy'r Gweinidog" yn unig, y gellid ystyried ei fod yn cyfaddawdu ei annibyniaeth ai allu i ddwyn llywodraeth Cymru ei hunan i gyfrif.

11. Credwn y dylid rhoi cyfle i'r Bwrdd adrodd yn ôl i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn annibynnol, yn hytrach na thrwy lywodraeth Cymru.

---

[3] Cofnod y Trafodion, 31 Mawrth 2009, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, tudalen 15
[4] Ibid, tud. 17

**Cymorth ar gyfer pobl ifanc ar y Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol**

12. Yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor, nododd Elin Gwynedd, Pennaeth Uned Datblygu Eiriolaeth a Pherfformiad llywodraeth Cymru, y gofynnwyd i'r bobl ifanc ar y Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol nodi pa fath o gymorth penodol yr hoffent ei gael, fel rhiant, gwarcheidwad neu ofalwr i'w hebrwng, bwydydd penodol, neu anghenion arbennig i gael mynediad i leoliadau.

13. Gofynnwyd a fyddai cyfle gan y bobl ifanc ar y Bwrdd i gwrdd ar wahân i'r oedolion, cyn y cyfarfodydd. Dywedodd Helen Mary Jones AC, Cadeirydd ein Pwyllgor, y bydd gan bobl ifanc bersbectif gwahanol yn aml y byddant am ei ddatblygu a'i ddwyn ynghyd, a gall fod yn haws iddynt wneud hynny gyda'i gilydd, yn hytrach nag ar eu liwt eu hunain.[5]

14. Croesawn honiad y Gweinidog y bydd cyfle i'r bobl ifanc ar y Bwrdd ddylanwadu ar y trefniadau o ran sut y maent yn cyfrannu mewn cyfarfodydd a gwneud penderfyniadau ynghylch y trefniadau hynny, a chytunodd y dylai'r bobl ifanc ar y Bwrdd allu rheoli sut y maent yn cymryd rhan.

15. Fodd bynnag, credwn y dylid gofyn i'r bobl ifanc ar y Bwrdd yn uniongyrchol, yn gynnar yn y broses, a ydynt yn dymuno cael cyfle i gwrdd ar wahân i'r oedolion, cyn cyfarfodydd y Bwrdd. Bydd hyn yn sicrhau bod y bobl ifanc ar y Bwrdd yn ymwybodol o'r dewis hwn, a bydd hefyd yn rhoi'r awdurdod iddynt benderfynu cymryd mantais ohono a'i peidio.

---

[5] Ibid, tud. 17

**Cyllid i sefydlu consortia o Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc**

16. Yn ei hymateb gwreiddiol i adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, “Gwasanaethau Eirioli ar gyfer Plant a Phobl Ifanc”, nododd llywodraeth Cymru:

“bydd Llywodraeth y Cynulliad yn annog Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc mewn consortia i ddatblygu a chomisiynu ar y cyd wasanaethau eirioli integredig a bydd yn darparu grant untro ar gyfer sefydlu trefniadau consortia.”[6]

17. Fodd bynnag, pan ofynnwyd ynghylch maint a ffynhonnell y grant untro ar gyfer sefydlu trefniadau’r consortia, dywedodd Elizabeth Williams, Pennaeth y Strategaeth Plant a Phobl Ifanc:

“Unfortunately, it came from the social services budget, and it was last year. The timescale for that has run out, and neither we nor our partners were in a position to get to the point at which we could use that money.”[7]

18. Mewn gohebiaeth yn dilyn hynny, cadarnhaodd y Gweinidog hynny, drwy ddweud:

“No money was drawn down. The money was only available for one financial year and was not accessed due to delays in the Government’s final plans as a result of the NHS reforms where the positions of LHB and CHC was unknown”.[8]

19. Rydym yn pryderu ac wedi ein siomi na ddefnyddiwyd unrhyw arian o’r grant hwn i gefnogi’r consortia o Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc wrth gomisiynu gwasanaethau eirioli integredig.

20. Credwn y dylai llywodraeth Cymru egluro pa arian a ddefnyddir yn awr - grantiau penodol neu gyllid sy’n bodoli eisoes - i alluogi i’r consortia o Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc gael eu sefydlu, i ddatblygu a chomisiynu gwasanaethau eirioli integredig ar y cyd.

---

[6] Ymateb ysgrifenedig Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar wasanaethau eirioli ar gyfer plant a phobl ifanc, http://www.cynulliadcymru.org/ymateb_ysgrifenedig_llywodraeth_cynulliad_cymru_i_adroddiad_ar_wasanaethau_eirioli_ar_gyfer_plant_a_phobl_ifanc_w.pdf, tudalen 4.

[7] Cofnod y Trafodion, 31 Mawrth 2009, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, tud. 20

[8] Tystiolaeth ychwengol gan y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, http://www.assemblywales.org/letter_from_jane_hutt_ac-am_minister_for_children__education__lifelong_learning_and_skills.pdf

## Arian ar gyfer gwasanaeth eirioli a ddarperir am ddim dros y ffôn neu drwy ddefnyddio negeseuon testun

21. Yn ein hadroddiad i Lywodraeth Cymru a gyflwynwyd ym mis Mawrth 2008, argymhellwyd y dylai gynnwys plant a phobl ifanc yn y gwaith o "ddatblygu gwasanaeth ffôn a neges destun am ddim i blant a phobl ifanc."[9]

22. Pan ofynnwyd i Ms Gwynedd a fyddai gwasanaeth eirioli a ddarperir dros y ffôn neu drwy ddefnyddio negeseuon testun am ddim, yn enwedig os ydych yn galw o ffôn symudol, dywedodd:

"We will be exploring that, but that is certainly how we want to do it. We have not found out that information yet, but we will. We are committed to looking at that".[10]

23. Rydym yn edrych ymlaen at weld llywodraeth Cymru'n canfod y wybodaeth hon. Os penderfynir bod angen mwy o arian ar gyfer gwasanaeth ffôn neu neges destun na'r hyn a ddyrannwyd i'r Uned Datblygu Eiriolaeth a Pherfformiad[11] ar hyn o bryd, credwn ei bod yn addas rhoi arian ychwanegol i'r Uned, i dalu am y gost hon. Dywedodd Helen Mary Jones AC, Cadeirydd y Pwyllgor, "it has to be free of charge; otherwise, the young people who need it the most will not be able to access it".[12]

## Darpariaeth ar gyfer newid eiriolwr proffesiynol yn hawdd

24. Yn ein hymchwiliad gwreiddiol, clywsom dystiolaeth gref gan bobl ifanc eu bod eisiau gallu gwneud penderfyniadau ynghylch pwy fyddai eu heiriolwr. Er enghraifft, dywedodd un person ifanc: "Ges i ddim dewis, a phe bawn i wedi cael dewis, fyddwn i'n bendant ddim wedi ei dewis hi."[13]

25. Gofynnwyd i'r Gweinidog, os oedd person ifanc yn anhapus gyda'i eiriolwr proffesiynol, a fyddai'n gallu ei newid, heb orfod mynd drwy broses hir a chymhleth o egluro pam ei fod yn anhapus. Gwnaethom groesawu honiad y Gweinidog y byddai yn ystyried hwnnw fel pwynt allweddol, i sicrhau ei fod yn rhan o'r canllawiau comisiynu.[14]

---

[9] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, Gwasanaethau Eirioli ar gyfer Plant a Phobl Ifanc (Mawrth 2008) http://www.cynulliadcymru.org/cr-ld6982-e.pdf, tud. 21

[10] Cofnod y Trafodion, 31 Mawrth 2009, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, tud.18.

[11] Nododd tystiolaeth ychwanegol gan y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau fod gan yr Uned Datblygu Eiriolaeth a Pherfformiad gyllideb o £800,000 wedi ei neilltuo ar gyfer 2009-10, a chyllideb o £850,000 wedi ei neilltuo ar gyfer 2010-11 (http://www.assemblywales.org/letter_from_jane_hutt_ac-am_minister_for_children__education__lifelong_learning_and_skills.pdf)

[12] Cofnod y Trafodion, 31 Mawrth 2009, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, tud.19

[13] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, Gwasanaethau Eirioli ar gyfer Plant a Phobl Ifanc (Mawrth 2008), http://www.cynulliadcymru.org/cr-ld6982-e.pdf, p.21

[14] Cofnod y Trafodion, 31 Mawrth 2009, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc,, tud. 20.

**Argymhellion**

**Argymhelliad 1:** Dylid rhoi'r cyfle i aelodau'r Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol adrodd yn ôl i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn annibynnol ar Lywodraeth Cynulliad Cymru.

**Argymhelliad 2:** Dylid gofyn i'r plant a'r bobl ifanc sy'n aelodau o'r Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol yn uniongyrchol a ydynt yn dymuno cael cyfle i gwrdd ar wahân i'r oedolion sydd ar y Bwrdd, cyn ei gyfarfodydd.

**Argymhelliad 3:** Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru egluro pa gyllid a ddefnyddir i sefydlu'r consortia o Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc, i ddatblygu a chomisiynu gwasanaethau eiriolaeth integredig ar y cyd.

**Argymhelliad 4:**

**4.1.** Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru benderfynu ar y gost o sefydlu gwasanaeth eirioli a chynghori dros y ffôn a thrwy ddefnyddio negeseuon testun, sydd am ddim os defnyddiwch ffôn symudol.

**4.2.** Yn dilyn ei benderfyniad, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod gan yr Uned Datblygu Eiriolaeth a Pherfformiad ddigon o arian i sefydlu'r gwasanaeth hwn.

**Argymhelliad 5:** Yng nghanllawiau comisiynu Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc, rhaid iddi osod cyfarwyddyd clir y dylai plant a phobl ifanc allu newid yr eiriolwr proffesiynol sy'n eu cynrychioli, heb iddynt orfod egluro pam eu bod yn anhapus ac eisiau ei newid.